Ordinhad 26
Ffurfiad y Myfyrwyr

Corff Cymeradwyo: Y Cyngor

Dyddiad Cymeradwyo: 06 Gorffennaf 2018

Perchennog y polisi: Ysgrifennydd y Brifysgol

Cyswllt y polisi: Geraint Pugh, gop2@aber.ac.uk / 01970 62 2114

Statws y polisi: Diwygiwyd

Fersiwn: 2.0

Dyddiad adolygiad diwethaf: Mai 2020

Dyddiad adolygu nesaf: Gorffennaf 2022

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg. / This document is also available in English.

ORDINHAD 26
FFURFIAD Y MYFYRWYR

1. Urdd Myfyrwyr Aberystwyth fydd "Ffurfiad y Myfyrwyr" a ddiffinir yn y Siarter a'r Ystatudau.

2. Etholir myfyrwyr yn aelodau o'r Cyngor, yn unol ag Ystatud 5(2)C a'r Senedd yn unol ag Ordinhad 18, gan Urdd Myfyrwyr Aberystwyth ar y telerau a'r amodau a ganlyn:

    1. Bydd yr aelodau o blith y myfyrwyr naill ai'n swyddogion sabothol Urdd Myfyrwyr Aberystwyth neu'n fyfyrwyr amser llawn cofrestredig yn y sefydliad.

    2 Penodir myfyrwyr yn aelodau am gyfnod o flwyddyn, a byddant ar dir i'w hailethol naill ai'n Swyddog Sabothol neu'n Fyfyrwyr amser llawn ar y Cyngor neu'r Senedd am gyfnod heb fod yn hwy na blwyddyn.

    3. Bydd tri aelod o blith y myfyrwyr yn y Senedd, yn unol â'r hyn a ddiffinir yn Ordinhad 18. Penodir yr aelodau am gyfnod o flwyddyn yn y lle cyntaf gyda'r posibilrwydd o'u hailethol am flwyddyn arall os ailetholir hwy yn gynrychiolwyr myfyrwyr yn un o'r pum categori.

    4 Yn amodol ar 2.1 a 2.2 uchod, bydd telerau a threfn penodi'r myfyrwyr yn aelodau ar y Cyngor a'r Senedd yn unol â'r hyn a ddiffinir yng Nghyfansoddiad Urdd y Myfyrwyr sy'n amodol ar ei gymeradwyo gan y Cyngor ar argymhelliad y Senedd, yn unol ag Ystatud 8.